# Beth yw Bardd Plant Cymru?

Mae Bardd Plant Cymru yn rôl lysgenhadol genedlaethol a gaiff ei dyfarnu i fardd Cymraeg bob dwy flynedd.

Nod Bardd Plant Cymru yw cyflwyno barddoniaeth Gymraeg i blant mewn modd ddiddorol a llawn hwyl. Mae'r bardd yn teithio o amgylch Cymru er mwyn cynnal gweithdai a digwyddiadau mewn ysgolion, clybiau ieuenctid a gwyliau celfyddydol, ac yn ysbrydoli plant i garu geiriau, i fod yn greadigol, ac i fynegi eu hunain.

Mae'r bardd hefyd yn ysgrifennu cerddi er mwyn nodi achlysuron neu ymgyrchoedd arbennig sydd o bwys cenedlaethol ac sydd o ddiddordeb i neu'n effeithio ar blant.

Mae 16 bardd wedi derbyn y teitl Bardd Plant Cymru ers lansio'r rôl yn y flwyddyn 2000. Gruffudd Owen yw Bardd Plant Cymru 2019-2021.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan www.barddplant.cymru.

Caiff Bardd Plant Cymru ei reoli gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru ac Urdd Gobaith Cymru.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

S4C

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Urdd